DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mawrth 1 Mehefin 2010

Datblygu Cyfeillgarwch ym Mharti Gefeillio 'Ffrindiau Da' yr Eisteddfod

Cynhelir parti 'Ffrindiau Da' ar y Maes yr wythnos hon (12:30yp, Dydd Mawrth 1 Mehefin) gyda phlant o Aberystwyth a'r Barri yn cyfarfod yn y 'Cwtsh Cymraeg' yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yng Ngheredigion.

Mewn menter gyffrous bydd Prosiect Gefeillio Urdd Gobaith Cymru 'Ffrindiau Da' a lansiwyd rhwng y ddwy ysgol gynradd y llynedd, yn cyfarfod i ail-ennyn eu cyfeillgarwch a thrafod y gweithgareddau maent wedi eu gwneud ar y cyd dros y misoedd diwethaf. Bydd **Ysgol Gwaun y Nant**, Y Barri a oedd yn hynod o brysur yn ystod Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd y llynedd yn cwrdd â phlant **Ysgol Gymraeg Aberystwyth** wrth iddynt hwy fwynhau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n cael ei chynnal yr wythnos hon ar eu stepen drws yn Llanerchaeron, Ceredigion. Am 12:30, bydd cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol yn ymuno mewn parti dros ginio i ail-ennyn eu cyfeillgarwch a rhannu profiadau'r misoedd diwethaf.

Ers eu cyfarfyddiad cyntaf ym Mae Caerdydd fis Mai 2009, mae'r plant o dde a chanolbarth Cymru wedi cwrdd ddwywaith yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog er mwyn rhannu profiadau, mwynhau'r cyfleusterau ac i ddod i wybod mwy am ei gilydd. Pwrpas y cynllun yw dod â phlant a phobl ifanc o wahanol gefndiroedd ar draws Cymru ynghyd, datblygu hunaniaeth a datblygu'r ymdeimlad o berthyn i gymuned, trwy ddefnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu megis e-bost, llythyrau a thripiau a drefnwyd ar eu rhan.

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru: "Mae cyfathrebu, drwy ba bynnag gyfrwng, yn parhau i fod yn sgil allweddol. Drwy ddod â dau set o blant ynghyd, na fyddai eu llwybrau, fel arfer, yn croesi, mae'r prosiect yn cynnig y cyfle iddynt rannu a gwerthfawrogi profiadau, iaith a chefndiroedd cymdeithasol gwahanol. Mae bwriad sylfaenol yr Urdd o ennyn heddwch ac ewyllys da i blant ar draws pob cyfandir yn parhau i fod mor berthnasol i ni heddiw ag yr oedd bron i 90 mlynedd nôl. Drwy rannu syniadau a phrofiadau, y gobaith yw y gwnaiff y cynllun ehangu gorwelion ein haelodau gan roi iddynt well dealltwriaeth o Gymru, ei phobl a'i hamrywiaeth."

Cafodd Prosiect Gefeillio'r Urdd, 'Ffrindiau Da' ei ysbrydoli gan deulu Prys Edwards, ei dad Sy Ifan ab Owen Edwards sefydlodd yr Urdd ym1922. Sefydlwyd y prosiect gan yr Urdd, mewn cydweithrediad â'r teulu Edwards, sydd hefyd yn noddi'r Cynllun.

Eglura Prys Edwards o Aberystwyth, Llywydd Anrhydeddus ac Ymddiriedolwr Urdd Gobaith Cymru: "Dechreuodd y syniad yma yn ein cartref ni wedi i'n hwyresau gael eu geni. Roedd dwy ohonynt yn byw yn Y Barri ac yn mynychu Ysgol Gwaun y Nant, a bydd ein hwyres arall yn mynychu Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Gwelsom yn fuan y byddai magwraeth y plant yn y ddwy ardal yn gwbl wahanol, o ran yr iaith, eu gweithgareddau cymdeithasol a'r dylanwadau arnynt.

"Unwaith i ni ddeall fod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dod i Geredigion, roeddem fel teulu yn awyddus i gefnogi menter newydd, gan drafod y syniad o efeillio plant gyda'i gilydd o fewn yr Urdd. Dwi'n mawr obeithio y bydd ehangu gorwelion y rhai ifanc yn sicrhau gwell dylanwad a chreu gwell dealltwriaeth arnynt o'n diwylliant, treftadaeth, iaith a'n traddodiadau. Bydd hyn yn ei thro yn arwain at gael dylanwad ar rieni, wrth iddynt hwythau hefyd ddysgu llawer mwy am y mudiad ieuenctid gwych hwn!"

Eglura Gareth James, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gymraeg Aberystwyth, sut y mae'r cynllun wedi dylanwadu ar y plant yn ystod y flwyddyn: "Mae'r plant o'r ysgol hon a Gwaun y Nant wedi cael hwyl garw yn ystod y flwyddyn. Mae cyfarfod ar ein tripiau i Langrannog wedi bod yn hynod o boblogaidd, gyda'r plant yn mwynhau'r sesiynau gwaith tîm, y gweithgareddau sydd ar gael yn y Ganolfan a'u hamser swper gyda'i gilydd. Yn ogystal â chyfarfod wyneb yn wyneb, rydym hefyd wedi bod yn anfon e-byst, postio pecynnau gwybodaeth am ein hardaloedd a thrafod yr hyn rydym yn mwynhau ei wneud yn ein hamser hamdden yn y ddwy ardal. Ychydig cyn yr Eisteddfod, derbyniodd disgyblion blwyddyn 6 ein hysgol gerdyn pob lwc enfawr yn y post gan ddisgyblion Ysgol Gwaun y Nant yn dymuno'n dda iddynt yn eu cystadlaethau yn yr Eisteddfod yr wythnos hon. Roedd y plant wedi dotio! Maent yn edrych ymlaen yn fawr i gyfarfod heddiw i rannu hanesion."

Bydd cyflwynwyr Stwnsh S4C yn galw heibio am 1:00yp i siarad gyda'r plant.

Bydd y cynllun yn ehangu'r flwyddyn nesaf, gyda dwy ysgol arall yn gefeillio, sef Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre o fro'r Eisteddfod yn Abertawe yn 2011 ac Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig (sy'n rhannu'r un Pennaeth) o Eryri, cartref gŵyl 2012.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
TUESDAY 1 JUNE 2010

Friendship rekindled at the Eisteddfod's 'Ffrindiau Da' Party

A lunch time 'Ffrindiau Da' party will be held on the Maes this week (12:30pm, Tuesday 1 June) with youngsters from Aberystwyth and Barry meeting up at the 'Cwtch Cymraeg' at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion.

In an exciting venture Urdd Gobaith Cymru's 'Ffrindiau Da', a twinning project between two of Wales' primary schools launched last year, will meet up and catch up on their recent activities. **Ysgol Gwaun y Nant**, Barry who were extremely busy during last year's annual Urdd Eisteddfod at Cardiff Bay will meet up again with youngsters from **Ysgol Gymraeg Aberystwyth** as they enjoy the Urdd National Eisteddfod held this week on their doorstep at Llanerchaeron, Ceredigion. At 12:30pm, representatives from both schools will join in a lunch time party as friendships are rekindled and experiences during the year are shared.

Since first meeting at Cardiff Bay in May 2009, both sets of youngsters living in South and Mid Wales, have met on two occasions at Gwersyll yr Urdd Llangrannog to share experiences, enjoy the facilities and learn more about one another. The purpose of the Urdd project is to bring youngsters from different backgrounds together, develop identity and a sense of community spirit using all forms of communication such as email, letters and pre-arranged trips.

Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru's Chief Executive said: "Communication, in whichever format we choose, remains a paramount tool in all our daily lives. By introducing two sets of youngsters to each other, whose paths would unlikely have crossed, this project offers the opportunity for these children to share and appreciate different experiences, language and social backgrounds. The Urdd's motto of peace and goodwill to children across each and every continent is as true today as it was nearly 90 years ago. By sharing ideas and experiences, this project will hopefully widen our members' horizon and give them a better understanding of Wales, its people and diversity."

The Urdd's twinning project 'Ffrindiau Da' is the brainchild of Prys Edwards family, who's father Sir Ifan ab Owen Edwards established the Urdd in 1922. The Edwards family initiated the project in co-operation with Urdd officials and is kindly sponsoring 'Ffrindiau Da'.

Prys Edwards from Aberystwyth, an Honorary President and Trustee of Urdd Gobaith Cymru explains: "The idea began here in our home when our grandchildren were born. Two live in Barry and attend Ysgol Gwaun y Nant, and our other granddaughter will soon attend Ysgol Gymraeg Aberystwyth. We saw a vast difference in the input of the language, the Welsh social activities and influences in both towns.

"Once we realised that t he Urdd National Eisteddfod was coming to Ceredigion, we, as a family, were keen to support a new venture, and discussed this twinning concept with the Urdd. I hope that widening the youngsters' horizons will bear a greater influence and understanding of our culture, heritage, language and traditions. This in turn, will also lead to influencing these children's parents, who will learn much more about this wonderful youth movement, Urdd Gobaith Cymru!"

Gareth James, Ysgol Gymraeg Aberystwyth's Deputy Headteacher explains how the children have benefited during the year: "The children from our school and Gwaun y Nant have had some great fun during the year. Meeting on our day trips at Llangrannog has proved a great hit, with the children enjoying their team building sessions, the activities available at the Centre and then relaxing over supper. In between our face to face meetings, we've been emailing each other, and sending information packs in the post about our home towns, what we enjoy doing and the facilities we use on doorsteps. Just before the Eisteddfod, our year 6 children received a huge good luck card in the post from Ysgol Gwaun y Nant's pupils wishing them well on their numerous competitions at the Eisteddfod this week. It truly touched the children! They can't wait to meet again today and catch up!"

S4C's Stwnsh presenters will pop in to the party at 1:00pm to speak to the children.

Next year two other schools will twin, Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre from Swansea, home of the 2011 Eisteddfod and Ysgol Tregarth and Ysgol Bodfeurig (who share the same Headteacher) from Eryri, the festival's home in 2012.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.